



Tribiwnlys Addysg Cymru

# Canllaw ar wrandawiadau



## Ynglŷn â'r canllaw hwn

Bydd y canllaw hwn yn rhoi gwybod i chi beth i'w ddisgwyl mewn gwrandawriad Tribiwnlys, a sut y dylech baratoi.

Mae'r [Gofrestr Gyhoeddiadau](#) yn rhestr o'r holl ganllawiau a ffurflenni. Mae'r gofrestr ar gael ar ein gwefan.

### Ar gyfer pwy mae'r canllawiau hyn?

Mae'r canllaw hwn ar gyfer unrhyw un sy'n dod i wrandawriad Tribiwnlys gyda Thribiwnlys Addysg Cymru.

### Tribiwnlys Addysg Cymru

Mae'r Tribiwnlys yn clywed ac yn gwneud penderfyniadau ar apeliadau am anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc, a hawliadau o wahaniaethu ar sail anabledd. Mae'r Tribiwnlys yn annibynnol ar y llywodraeth ac awdurdodau lleol, ac mae ein penderfyniadau'n rhwymo mewn cyfraith.

### Prif Amcan a Rhwymedigaeth i Gydweithredu

Prif fwriad y Tribiwnlys yw ymdrin ag achosion yn deg ac yn gyfiawn. Mae'r Tribiwnlys yn disgwyl i bob parti gydweithredu â'i gilydd, a'r Tribiwnlys, i symud yr apêl yn ei blaen. Gall hyn gynnwys cyfnewid gwybodaeth a

dogfennau gyda phartïon eraill, neu gydweithio â cheisiadau'r Tribiwnlys yn fwy cyffredinol.

### Dewis Iaith

Mae'r Tribiwnlys yn croesawu derbyn gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg i unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi cyn i ni ymateb.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. Cysylltwch â'r Tribiwnlys am fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon. Gallwch hefyd gyflwyno ffurflenni, dogfennau a sylwadau ysgrifenedig i'r Tribiwnlys yn Gymraeg neu yn Saesneg.

### Adnoddau Gwybodaeth

- [Deddf Cydraddoldeb 2010](#)
- [Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021](#)
- [Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021](#)
- [Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018](#)
- [Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol \(Cymru\) 2021](#)

## **Gwrandawiadau a gynhelir drwy alwad fideo**

Bydd aelod o'r ysgrifenyddiaeth yn trefnu galwad brawf gyda chi yn yr wythnosau sy'n arwain at y gwrandawriad fel y gallwch gysylltu'n hawdd ar y diwrnod. Os oes gennych unrhyw bryderon penodol ynghylch cysylltu drwy alwad fideo, rhowch wybod i ni cyn y prawf fel y gallwn roi cymorth priodol i chi.

Gallwch gysylltu â'r cyfarfod o unrhyw le preifat sydd â chysylltiad â'r rhyngwyd. Cofiwch ei fod yn wrandawriad ffurfiol, fel mewn unrhyw lys arall. Dylech wisgo'n briodol, a sicrhau na all unrhyw un nad yw'n mynychu ei glywed. Rydym yn awgrymu eich bod yn troi eich microffon i ffwrdd pan nad ydych yn siarad fel bod unrhyw sŵn cefndir posibl yn cael ei ddileu.

## **Gwrandawiadau a gynhelir yn bersonol**

Fel arfer, cynhelir gwrandawiadau a gynhelir yn bersonol mewn ystafell gyfarfod mewn gwesty, dim mwy na 1 awr o daith mewn car o dŷ'r ymgeisydd.

Rydym yn anelu at ddechrau'r gwrandawriad yn brydlon, felly dylech gyrraedd o leiaf 10 i 15 munud cyn ei fod i ddechrau. Gadewch inni wybod os ydych yn debyg o gael anawsterau yn cyrraedd yn brydlon, neu fel arall fe allai'r gwrandawriad ddechrau heboch chi.

Ar ôl ichi gyrraedd, bydd ein clerc yn cyfarfod â chi i esbonio'n fyr beth fydd yn digwydd a ble mae pethau. Cewch ofyn unrhyw gwestiynau sydd gennych am y gwrandawriad i'r clerc. Pan fydd aelodau'r tribiwnlys yn barod i ddechrau, bydd y clerc yn eich casglu i fynd â chi i'r gwrandawriad. Os nad ydych yn dymuno i blentyn fynychu'r gwrandawriad cyfan, bydd angen i chi drefnu i rywun ofalu amdanynt pan nad ydynt yn y gwrandawriad gan na all staff y Tribiwnlys wneud hyn.

## **Eich cynrychiolydd a'ch tystion**

Byddwn wedi gofyn eisoes ichi roi enwau pwy sy'n dod i'r tribiwnlys i gyflwyno'ch achos (eich cynrychiolydd), ac enwau a chyfeiriadau'r tystion yr ydych yn dod â nhw. Os ydych yn rhiant, byddwn wedi gofyn hefyd ichi adael inni wybod a yw'ch plentyn yn dod a gofyn ichi roi enwau a chyfeiriadau unrhyw un arall yr ydych wedi gofyn iddyn nhw ddod i'ch cefnogi.

Mae yna gyfyngiadau ar pwy all ddod i'r gwrandawriad. Esbonnir y rhain yn ein llyfryn 'Sut i apelio' ac yn y canllawiau sydd wedi'u hanfon atoch yn barod i'ch helpu l lenwi'ch ffurflen bresenoldeb.

Os nad ydych wedi rhoi manylion unrhyw gynrychiolydd neu dyst yr ydych yn dod â nhw, gall y cadeirydd eu hatal rhag dod i wrandawriad y tribiwnlys.

Chi sy'n gyfrifol am sicrhau bod eich cynrychiolydd a'ch tystion yn gwybod ble a phryd y caiff y gwrandawriad ei gynnal, a'u bod yn cyrraedd yn brydlon.

## Cyflwyno'ch achos

Yn y gwrandawriad, bydd y tribiwnlys yn sicrhau y cewch gyfle i esbonio'ch safbwynt yn llawn. I wneud hynny, bydd y cadeirydd yn sicrhau bod y gweithdrefnau mor anffurfiol â phosibl. Bydd aelodau'r tribiwnlys yn gofyn cwestiynau heb ddefnyddio jargon cyfreithiol neu addysgol.

Bydd y cadeirydd yn dechrau drwy gyflwyno aelodau'r panel a siarad am broses y gwrandawriad. Bydd yn awgrymu bod gwahanol rannau o'r achos yn cael eu trafod un ar y tro, yn hytrach na gofyn ichi wneud datganiad am yr achos cyfan. Bydd y cadeirydd yn nodi'r pynciau hyn ar ddechrau'r gwrandawriad a chewch gyfle i gytuno arnyn nhw ac ychwanegu atyn nhw.

Caiff y pynciau hyn eu trafod fesul un. Bydd hynny'n rhoi cyfle i bawb ganolbwyntio ar bwyntiau wrth iddyn nhw godi. Os ydych yn anghytuno â rhywbeth a ddywedir, dylech wneud nodyn ohono a chodi'r mater pan fydd eich tro chi i siarad, yn hytrach na thorri ar draws y cyfarfod.

At ei gilydd, bydd y cadeirydd yn gofyn yn gyntaf i gynrychiolydd yr Awdurdod Addysg Lleol (AALI) esbonio'u barn nhw am bob pwynt, ac wedyn yn gofyn i'r rhiant (neu'r cynrychiolydd) esbonio'u barn nhw. Bydd y tribiwnlys yn gwrando unrhyw dystiolaeth gan dystion yn ystod y drafodaeth ar y pwynt hwnnw, a bydd y rhiant a'r AALI yn cael gofyn cwestiynau am dystiolaeth ei gilydd. Rhaid i'r tystion wybod yr holl ffeithiau y maen nhw'n eu cyflwyno.

Bydd y tribiwnlys yn gofyn i'r ddwy ochr:

- beth yw'r pwyntiau perthnasol yn eu barn nhw;
- pa gasgliadau a ddylai gael eu tynnu o'r rhain yn eu barn nhw; a
- beth yn eu barn nhw ddylai gael ei wneud er lles y plentyn.

Cewch drafod mwy na'r pwyntiau sy'n cael eu codi gan y tribiwnlys. Cewch gyfle i ychwanegu unrhyw beth yr ydych yn teimlo ei fod yn bwysig ond sydd heb gael ei grybwyll. Rydym yn awgrymu eich bod yn gwneud rhestr ymlaen llaw o'r pethau yr hoffech iddyn nhw gael eu hystyried. Gallwch groesi pob pwynt oddi ar eich rhestr wrth iddo gael ei drafod a chodi unrhyw bwyntiau sydd wedi'u hepgor.

Ar ôl i bawb leisio'i farn am y pynciau a nodwyd gan y tribiwnlys i gael eu trafod ar y dechrau, bydd y cadeirydd yn gofyn ichi a oes unrhyw beth arall yr hoffech ei godi, sydd heb gael sylw eto. Yna, cewch gyfle i grynhoi. Mae hyn yn gyfle i chi ddweud wrth y tribiwnlys beth yn eich barn chi yw pwyntiau pwysicaf eich achos. Cewch ddweud hefyd pa rannau o'r dystiolaeth yr ydych wedi'i chyflwyno yw'r pwysicaf.

## **Dogfennau ac unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig hwyr**

Dylech ddod â'r holl ddogfennau sy'n berthnasol i'ch achos i'r gwrandawriad. Byddwn yn anfon set, gyda rhifau arnyn nhw, o'r holl bapurau yr ydym wedi'u cael erbyn diwedd cyfnod y datganiadau achos. Dylech ddod â'r rhain i'r gwrandawriad ynghyd â chopïau o unrhyw dystiolaeth hwyr yr ydych wedi'i chyflwyno neu wedi'i chael gennyn ni neu gan yr ochr arall.

Bydd y cadeirydd yn delio'n gyflym ag unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig hwyr yr ydych wedi'i hanfon (hynny yw, ar ôl diwedd y cyfnod ar gyfer y datganiadau achos) ar ddechrau'r gwrandawriad. Bydd panel y Tribiwnlys yn ystyried eich cais:

- os yw'r ochr arall yn cytuno i gynnwys y dystiolaeth; neu
- os gallwch ddangos nad oedd y dystiolaeth ar gael, ac na allai fod wedi bod ar gael yn rhesymol, cyn y dyddiad cau.

Dylech anfon y dystiolaeth hon at y Tribiwnlys a'r ochr arall fel ei bod yn cyrraedd o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y gwrandawriad. Bydd y panel yn dal i ystyried barn yr ochr arall.

Rhaid i'r dystiolaeth hon hefyd fod yn annhebygol o atal y gwrandawriad rhag cael ei reoli'n effeithlon. Gallai cyflwyno dogfennau hir neu gymhleth yn y gwrandawriad achosi anawsterau neu oedi.

Gall y panel tribiwnlys barhau i dderbyn tystiolaeth ysgrifenedig hwyr nad yw'n bodloni'r amodau hyn, ond dim ond os gallwch ddangos bod risg ddifrifol o ragfarn os na dderbynnir y dystiolaeth.

Bydd panel y tribiwnlys yn gwrthod derbyn tystiolaeth ysgrifenedig hwyr os yw'n credu y byddai'n groes i gyfiawnder.

Dewch â 5 copi o unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig i wrandawriad os nad yw'r tribiwnlys neu'r ochr arall wedi'i derbyn o leiaf 5 diwrnod gwaith ymlaen llaw.

## **Meysydd lle ceir cytundeb**

Os ydych wedi dod i gytundeb gyda'r ochr arall cyn y gwrandawriad ar rai o'r materion yr ydych yn apelio yn eu herbyn, cewch anfon nodyn ysgrifenedig i nodi'r meysydd yr ydych yn cytuno arnyn nhw. Gallwch ddod â chytundeb ysgrifenedig i'r gwrandawriad hefyd. Bydd y cadeirydd fel rheol yn derbyn datganiad ysgrifenedig sy'n nodi'r meysydd yr ydych yn cytuno arnyn nhw.

**Canlyniad yr apêl neu hawliad**

Bydd aelodau'r Tribiwnlys yn gwneud eu penderfyniad drwy ystyried yr holl dystiolaeth ar ôl i'r gwrandawriad ddod i ben, ond fel rheol fyddan nhw ddim yn rhoi'r canlyniad ichi ar ddiwrnod y gwrandawriad. Byddwn yn ei anfon atoch drwy'r post neu mewn e-bost yn nes ymlaen.

Rydym yn anelu at anfon ein penderfyniad a'r rhesymau drosto atoch o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl y gwrandawriad. Mewn rhai achosion mae angen ychydig yn fwy o amser cyn inni anfon y penderfyniad. Allwn ni ddim rhoi'r penderfyniad ichi dros y ffôn.